CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 14eg o Fai 2025 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Catrin Jones Johnson, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Rhys Davies, Lynne Mccrickett, Arfon Hughes, a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng John P Roberts a Geraint Morgans.

   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

   Aethpwyd ymlaen I gael adroddiad gan Cyng John P Jones am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cygnor dros y flwyddyn 2024-25
   Roedd y gwaith wedi parhau i sicrhau fod arian trethdalwyr yn cael eu defnyddio yn gyfrifol ac effeithiol. Bu'r Cyngor yn ymateb ar faterion cynllunio drwy gydol y flwyddyn, ynghyd a danfon ymlaen materion i adran priffyrdd a Cyngor Gwynedd, ac hefyd i'r Adran Cefnffyrdd. Ymatebwyd i bob ymholiad gan y cyhoedd yn brydlon. Yn ol yr arfer, trefnwyd a gosodwyd Coeden Nadolig o flaen y Neuadd yn Dinas, a sicrhawyd fod mynwentydd Mallwyd, Dinas a Llanymawddwy yn cael gofal. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, bu'r nifer o'r Cynghorwyr yn gwneud gwaith eu hunain ym mynwent Mallwyd a Llanymawddwy – yn torri a chludo coed a thacluso yn gyffredinol. Hefyd paentiwyd arwyddion ffynnhonau yn Aberangell. Bu nifer o'r Cynghorwyr yn cynrychioli y Cyngor ar gyrff neu fudiadau eraill yn yr ardal. Daeth Age Cymru i'r Neuadd Bentref i gynnal sesiwn 'galw mewn' - hyn ar gais y Cyngor Cymuned. Rhoddwyd ystyriaeth i hyfforddiant Cynghorwyr, a chymerwyd rhan yng Ngwasanaeth Sul y Cofio gan Gynghorwyr.

   Diolch yn fawr iawn i bawb o'r Cynghorwyr am eu presenoldeb a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar y 5ed o Fawrth ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Idris Jones.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Hefyd rhaglen waith Mai 2025.
b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** dywedodd Cyng Arfon Hughes fod holiadur wedi ei baratoi a'i chylchredeg yn eang, a bod yn bwysig i gymaint a phosib ei gwbwlhau cyn y dyddiad cau o'r 13eg Mehefin. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Arfon Hughes fel Cadeirydd Ffrindiau Tydecho)
c) **Blwch Post Cerist –** darllenwyd ymateb y Royal Mail 21.03.25 yn nodi na fyddai'r blwch yn cael ei ail-osod gan fod blychau blaenorol wedi eu dwyn oddiyno ar 3 achlysur.

d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd datblygiadau.

e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – adroddodd Cyng Wyn Lewis fod 3ydd amcangyfrif i law. Gwelwyd fod rhaid cael sicrwydd fod y tir ar gael cyn mynd ymhellach, a byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd.

f) **Archwiliad/gofal mynwentydd** – trafodwyd y diweddaraf yn dilyn gohebiaeth gan yr Eglwys yng Nghymru, a chytunwyd yn unfrydol y gellir parhau i gadw **mynwent Llanymawddwy** ar agor. Trafodwyd y goeden Ywen ym **mynwent Mallwyd**, a phenderfynwyd fod hyn yn fater i'r perchennog. Gyda'r wal gerrig ar y terfyn, ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding ynghyd a chytundeb pawb, pendefynwyd nad oedd opsiwn ond cadw gowg ar y sefyllfa.

Yng nghyswllt torri gwair eleni ym Mallwyd a Llanymawddwy, gofynnwyd 'r Clerc gael gair gyda Tegid i gael eglurhad am y sefyllfa, gan nad oedd wedi bod yn dda yn ddiweddar. Os na fedai wneud eleni, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Andrew Johnson, i weld a fedrai helpu eleni gyda Mallwyd a Llanymawddwy yn ogystal a Dinas. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Johnson pan drafodwyd hyn)

g) **Digwyddiad Age Cymru yn y Neuadd pnawn Mercher 23ain Ebrill** – nodwyd fod 8 person wedi ymweld, a bod y digwyddiad yn ddefnyddiol iawn. Ar gynnig Cyng Rhys Davies a'i eilio gan Cyng Berwyn Hardig, cytunwyd fod y Cyngor Cymuned yn talu cost y Neuadd i'r achlysur. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Johnson, Wyn Lewis a Lynne McCrickett)

h) **Gohebiaeth 'Cyfeillion Llyn'** - trafodwyd polisi iaith, ac ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd i barhau gyda safbwynt presennol y Cyngor Cymuned sydd ar y wefan. *( sef, fod y Cyngor yn trafod yn y Gymraeg, ac os oedd aelod o'r cyhoedd eisiau rhoi cyflwyniad i'r Cyngor, gellir gwneud hynny yn y Saesneg. Os oedd yn dymuno parhau yn y cyfarfod, byddai rhaid iddo/iddi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ei hun – hyn yn wir hefyd am unrhyw aelod newydd o'r Cyngor i'r dyfodol. Hefyd, os oedd y Cyngor yn trefnu cyfarfod agored ar gyfer y cyhoedd, y Cyngor fyddai yn gyfrifol am drefnu gwasaneth cyfieithu.)*

i) **British Fell Relay Championship – drwy Ddinas Mawddwy 18fed Hydref 2025.** Nodwyd y gohebiaeth gan Elen Evans, a bod y digwyddiad yn un pwysig, gyda tua 1600 o gystadleuwyr a chefnogwyr yn dod i'r ardal. Roedd angen pobl i helpu, a dywedodd nifer o Gynghorwyr y gallent fod ar gael. Byddai Cyng Catrin Johnson yn ymateb i Elen.

5.**Ethol Swyddogion 2025-26.**

a) **Cadeirydd** – ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'I eilio gan Cyng Catrin Johnson, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng John Parry Jones yn Gadeirydd am 2025-26.

b) **Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng Idris Jones a'I eilio gan Cyng Rhys Davies, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Sion Alun Roberts yn Is- gadeirydd am 2025-26.

**6. Telerau a Chostau y Clerc 2025-26**

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell. Cadarnhawyd cynnydd o £250 yn y costau neu gydnabyddiaeth ar gyfer 2024-25 (byddai'r Clerc yn son wrth y cyfrifydd).

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2025/26.**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 09/07/25, 27/08/25, 8/10/25, 10/12/25, 21/01/26, 4/03/26.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau ar wefan y Cyngor.

8. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau I'w cwbwlhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan I law**

Ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'I eilio gan Cyng Berwyn Harding, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol;

**Cod ymddygiad** – (roedd copiau wedi eu danfon i bawb drwy e-bost, a dosbarthwyd gopiau caled hefyd)

**Rheoliadau ariannol a rheolaidau sefydlog**

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

Ar gynnig Cyng Lynne McCrickett a'I eilio gan Cyng Arfon Hughes, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol;

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr) - ychwanegwyd rhai materion

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £7700.

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Un Llais Cymru – Cyng Wyn Lewis a Catrin Johnson (roedd angen cadarnhau eu henwau i Swyddog Datblygu newydd a benodwyd yn ddiweddar.

Neuadd Dinas Mawdwy – Cyng Sion Alun Roberts

Neuadd Aberangell – Cyng Berwyn Harding.

Pwyllgor yr Hen Fynwent – Cyng Catrin Johnson a Lyn Mccrickett

Dyfi Biosphere – Cyng Rhys Davies

10. **Materion Cynllunio**

Adroddwyd dau gais wedi ei ddosbarthu ers y tro diwethaf, sef;

**NP5/74/464H –** newidiadau i'r cwrs **Red Bull hardline** a ganiateir i gynnwys darnau ychwanegol o'r trac a thynnu ac adfer darn o drac a naid a gymeradwywyd eisoes. *(hwn wedi ei ddanfon allan yn gwahodd sylwadau, ac roedd y Cyngor yn gefnogol)*

Ehangu mast ffon – Ty'n Pwll, Dinas Mawddwy - roedd hwn wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr 30.04.25. *Yn dilyn trafodaeth, cadarnhawyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol, oherwydd byddai o fudd i'r gymuned.*

## 11. Materion Cyllid.

a) **Cyflwynwyd cyfrifon 2024-25** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w cyflwyno I'r archwilydd allanol maes o law, ac roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi.

b) **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Clear Councils**, am gyfanswm o £564.55 a chadarnhawyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2025-26. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfon allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr ar 30.04.25)

Ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'I eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd I'w dalu.

c) Nodwyd derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2025-26, sef £6550. Nodwyd balansau y cyfrifon, (14.05.25), sef Cyfri Cyfredol £10,084.83, Cyfri Claddedigaeth £401.29 Cyfri Cadw £791.29). Cyfeirwyd hefyd at gyllideb 2025-26 a oedd wrth law..

d) Ceisiadau am arian.

- Ambiwlans Awyr Cymru – nodwyd nad oedd unrhyw ddatblygiad gyda'r Adolygiad Barnwrol, a byddai rhaid trafod hyn eto.

## 12. Gohebiaeth.

a) Nodwyd Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn dosbarthu.

b) Nodwyd gwahoddiad i gyfarfod Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais ar yr 20fed Mehefin.. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda chadarnhad o'r dyddiad, a dosbarthu i bawb.

c) Roedd gohebiaeth i law am gyfuno wardiau y Cyngor. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr 23.03.25. Ag eithrio yr etholaidau, gwelwyd nad oedd hyn o unrhyw wahaniaeth ymarferol i weithgarwch Cyngor Mawddwy.

d) Nodwyd ohebiaeth am gronfeydd grantiau - y Cronfa Diwyllesiant a'r Gronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau. Byddai'r Clerc y neu dosbarthu.

e) Roedd e-bost gan Steffan Williams o Gyngor Gwynedd am Glybiau Ieuenctid. Nodwyd Glybiau Ffermwyr Ieuainc llwyddiannus yn y Dinas.

f) Nodwyd ohebiaeth Lowri Nansi Roberts o Gyngor Gwynedd ynglyn a digwyddiad Tai ar Daith. Yn y cyswllt yma, gofynnwyd a gafwyd unrhyw adborth yn dilyn y diwrnod agored yn Tachwedd 2024 gan Grwp Cynefin.

g) Adroddodd y Clerc am gynnwys cyfarfod zoom y bu ef a Lynne Mcrickett arno gan Parc Cenedlaethol Eryri ‘Fforwm Cymunedau’.

**Unrhyw Fater arall.**

**13.**

a) Roedd awgrym i law y dylid gwella golwg y Gofgolofn yn Minllyn. Cytunwyd i roi hwn ar agenda y cyfarfod nesaf pan fyddai e-bost i law.

b) Roedd cwynion am gyflymder traffic drwy Minllyn, a bod angen mesurau i liniaru y broblem. Roedd Cynan Hughes o’r Ysgol yn awyddus i ddod i’r Cyngor i egluro y broblem, ac addawodd Lynne Mcrickett gysylltu nol efo’r ysgol.

c) Cyfeiriwyd at y gwelliant o dan Groeslwyd ar yr A458, ond bod pryder fod y boltiau/pinau uwchlaw y ddaear yn berygl petai damain, neu wrth dorri tyfiant ochrau y ffordd.

d) Nodwyd fod hysbysfwrdd Llanymawddwy angen ei godi, ac addawodd Cyng Catrin Johnson gysylltu gyda Cyng Sion Alun Roberts pan yn gyfleus.

e) Gofynnwyd a oedd modd symud yr arwydd 20 wrth ddod i mewn i Aberangell o’r A470, sef ei fod rhwng y briffordd a’r bont er mwyn lleihau cyflymder.

f) Roedd angen arwydd Parcio yn y Plas i gyfeirio pobl i’r man cywir – yn hytrach na parcio yn y man troi.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 9fed o Orffennaf 2025 , 8.00y.h.**